

## **Gweithdrefnau Diogelu Cymru – Amcanion ac Egwyddorion**

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru wedi eu creu i wella ymarfer diogelu mewn sawl ffordd:

- Sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau ac yn gwybod ar a sefydliad, tîm neu ymarferwr mae'r cyfrifoldeb arweiniol dros ddiogelu yn ogystal ag union rolau pawb dan sylw;
- Sicrhau bod arfer yn unol â gofynion deddfwriaethol a disgwyliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canllawiau diogelu cysylltiedig (Adran 7 Cyfrolau 5 a 6 ar ymdrin ag Achosion Unigol)
- Cynnig fframwaith sy'n galluogi Byrddau Diogelu Rhanbarthol a rheolwyr asiantaethau i sicrhau bod ymarfer yn cydymffurfio â rolau a chyfrifoldebau statudol a gofynion a disgwyliadau deddfwriaethol;
- Galluogi Byrddau Diogelu Rhanbarthol a rheolwyr asiantaethau i werthuso ansawdd arferion diogelu lleol a darparu cyfrwng i hwyluso'r gwaith o gydlynu a herio'n lleol.
- Hwyluso asesiadau, cynlluniau ac ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni a nodir yn y rheoliadau a'r canllawiau;
- Defnyddio ymchwil ac arfer gorau i gynorthwyo wrth wneud penderfyniadau.

Bydd y gweithdrefnau hefyd yn creu canllawiau newydd yn benodol ar gyfer y rhai sy'n gweithio gydag oedolion sy'n wynebu risg:

- Rhoi arweiniad i ymarferwyr mewn cysylltiad ag oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso gan eu galluogi i nodi a mynd i'r afael ag anghenion gofal, cymorth ac amddiffyn yr oedolyn;
- Cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â'r oedolyn sy'n wynebu risg, ei deulu a'i ofalwyr drwy gydol y broses ddiogelu, ar yr amod nad yw hyn yn rhoi'r oedolyn mewn perygl pellach o niwed;
- Hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol drwy wella profiadau beunyddiol yr oedolyn sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso;
- Sicrhau gwaith partneriaeth effeithiol i ddiwallu anghenion gofal, cymorth ac amddiffyn yr oedolyn sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso;
- Galluogi rheolwyr a goruchwylwyr i arwain a chefnogi staff i sicrhau bod oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.